**Cyfarfod Bwrdd | Board meeting**

**16/06/23 – Teams**

**Cofnod a phwyntiau gweithredu | Minutes and Actions**

**Presennol / In attendance:** Gethin Davies (GD); Lesley Bush (LB); Sioned Roberts (SR); Lucy Thomas (LT)

Ann Evans (AE); Elliw Roberts (ER);

**Ymddiheuriadau/Apologies:** Nicola Wood (NW); Huw Jones (HJ);

| **Eitem agenda**<br>***Agenda point*** | **Crynodeb o'r drafodaeth a phwyntiau gweithredu** | **Summary of discussion and action points** |
|---|---|---|
| 1. Cynllun Busnes \|<br>*Business Plan* | Roedd ail ddrafft o'r cynllun busnes wedi ei rannu gyda'r aelodau er mwyn trafodaeth tu allan i gyfarfod. Mae copi wedi ei gylchredeg gyda cydweithwyr yn LIC er mwyn derbyn eu sylwadau cychwynnol.<br><br>Codwyd y pwyntiau canlynol gan aelodau'r Bwrdd.<br>• Bydd rhagair y Cadeirydd yn cael ei ddatblygu ymhellach | A second draft of the business plan was circulated to members for an out of committee discussion. It has also been circulated to colleagues in WG for their initial comments.<br><br>The following points were raised by members:<br>• The Chair's foreword will be further developed. |

| | | |
|---|---|---|
| | • *Gweledigaeth* – ar hyn o bryd ddim yn adlewyrchu dyhead, yn hytrach yn ymwneud mwy a'r diben.<br>• *Gwerthoedd* – cafwyd trafodaeth ynghylch cadw yr adran yma'n gryno a lefel uchel, a'i ddatblygu ymhellach dros amser ac unwaith y bydd Prif Weithredwr mewn lle. Rhai gwerthoedd i'w hystyried:<br>- Cydweithredol<br>- Cenedlaethol (fyddai hefyd yn cyfeirio at ddiwylliant a'r iaith)<br>- Cydraddoldeb ac amrywiaeth<br>- Sefydliad sy'n gwrando ac yn ymateb i anghenion<br>- Tegwch yn y ddarpariaeth<br>- Sefydliad sy'n dysgu (a hefyd yn esblygu)<br>- Annibynnol – corff hyd braich – oes angen i hyn fod yn glir?<br>- Arloesol a chreadigol<br>Gall mwyafrif yr uchod gael eu cadw nes fydd Prif Weithredwr mewn lle, a gellid defnyddio 4/5 gair i adlewyrchu gwerthoedd craidd, a datblygu 'straplines' i gwmpasu rhain a'u cyfathrebu'n weledol.<br><br>• *Gweledigaeth* - i fod yn greadigol, arwain y sector a wynebu'r dyfodol. | • *Vision* – currently does not reflect aspiration and is more about purpose.<br>• *Values* – members discussed whether this section is kept brief and high level, being further developed over time and once a Chief Executive is in place. Some values for consideration:<br>– Collaborative<br>– National (would also refer to culture and language)<br>– Equality and diversity<br>– A listening organisation that's responsive to needs<br>– Equity (in provision)<br>– A learning organisation (that also evolves)<br>– Independent – ALB – does this need to be clear?<br>– Innovative and creative<br>The majority of the above could be kept until a Chief Executive is appointed, and use 4/5 words to reflect core values, and develop straplines to encompass these and communicate visually.<br><br>• *Vision* – is to be innovative, sector leading and future facing. Distinctive and underpinned by robust governance. |

| | | |
|---|---|---|
| | Nodedig gyda llywodraethiant cadarn yn sail i'r cyfan.<br>• *Blaenoriaethau'r flwyddyn i ddod* – digwyddiadau i rhanddeiliaid ayyb.<br>• *Amserlen* – nodwyd y byddai Four Cymru yn datblygu graffeg llawn.<br>• *Amcanion 23/24* – awgrymwyd ambell newid i ddiwyg a geiriad rhain.<br>• Dyw'r angen i ymgymryd a rhai o flaenoriaethau LIC heb ei gyfleu yn y ddogfen eto megis llinell amser hanes Cymru a prawf sgrinio dyslecsia Cymraeg.<br>• *Rhagolwg cyllid* – dylid rhannu cyfanswm Bwrdd a Llywodraethiant er mwyn cyfleu'r swm sy'n cael ei wario yn erbyn hyfforddiant; ad-daliadau ayb.<br>• Dylai'r cynllun tymor canolig gynnwys meysydd fel hyrwyddo, ymwybyddiaeth a defnydd o adnoddau. Gall rhain gael eu cyfleu yn y llinell amser.<br>• Trafodwyd yr amserlen o gyflwyno'r Cynllun Busnes. Adnodd i gyflwyno i LIC erbyn 30 Mehefin, gyda'r Tîm Partneriaeth a'r Gweinidog i gymeradwyo erbyn 14 Gorffennaf | • *Priorities for the year ahead* – stakeholder events etc.<br>• *Timeline* – noted that this would be developed into a full graphic by Four Cymru.<br>• *Objectives for 23/24* – small changes to format and wording were suggested.<br>• Not captured in the document currently is the need to take forward some WG priorities, e.g. Welsh history timeline and dyslexia screening test in Welsh.<br>• *Financial forecast* – should split Board and Governance total to reflect amount spent against training, remuneration etc.<br>• Medium term plan should include areas such as promotion and awareness and use of resources. These could be reflected in the timeline.<br>• Timeline for submitting the Business plan was discussed. Adnodd to submit to WG by 30 June, with Partnership Team and Minister to approve by 14 July. |
| 2. Cytundeb Curshaw \|<br>*Curshaw contract* | Cyfeiriodd y Tîm Gweithredol at y matrics dirprwyo sydd wedi ei gytuno gyda LIC a'r | Executive team referred to the interim delegation matrix agreed with WG and the |

| | | |
|---|---|---|
| | Swyddog Cyfrifo Interim a'r Swyddog Cyfrifo Ychwanegol.<br><br>Cafwyd trafodaeth ar gyflwyniad Curshaw. Mynegwyd peth petruso ynghylch y gost arfaethedig. Fodd bynnag, cydnabuwyd fod y cyflenwyr wedi rhoi cyflwyniad cryf a'i fod yn ymddangos yn debygol o allu cynnig yr arbenigedd a'r profiad masnachol dros-dro sydd angen ar Adnodd i sefydlu ei hun yn gyflym ac i ddechrau gweithredu'n yn effeithiol ac yn ddiogel.<br><br>Cytunodd y Bwrdd i ddyfarnu'r gwaith yn uniongyrchol i Curshaw.<br><br>Tîm Gweithredol yn nodi'r camau nesaf – angen ceisio caniatâd gan Lywodraeth Cymru i gael gwyro oddi wrth y prosesau caffael arferol ac i ddyfarnu yn uniongyrchol. Oherwydd swm y cytundeb bydd hefyd angen cyflwyno cais i Wasanaethau Caffael Corfforaethol LlC. | interim Accounting Officer and Additional Accounting Officer.<br><br>Discussion had on the Curshaw presentation. Some reservations expressed in relation to the proposed cost. However, it was acknowledged that the supplier gave a strong presentation and appeared likely to offer Adnodd the short-term commercial expertise and experience to become operationally effective quickly and safely.<br><br>The Board agreed to directly award the contract to Curshaw.<br><br>Executive team noted the next steps – departure request to be submitted to WG for consideration and seek approval for a direct award from the AO and AAO. Due to the contract value Corporate Procurement Services in WG will also need to approve. |